



Beth i'w ddisgwyl o gyfarfod arweiniad gyrfaol

Pwy ydym ni a phwy ydym ni'n eu cynorthwyo

Mae'r Tîm Cymorth Gyrfaoedd yn Neoniaeth Cymru yn Ysbyty Athrofaol Prifysgol Caerdydd. Rydym yn cydlynu gwybodaeth am yrfaoedd a chymorth i hyfforddeion meddygol ledled Cymru. Mae gennym gynorthwywyr gyrfaol ym mhob un o'r Byrddau Iechyd ledled Cymru sy'n ffurfio rhwydwaith cymorth ar lefel leol.

Mae'r Tîm Gyrfaoedd yn cefnogi'r holl feddygon dan hyfforddiant yng Nghymru i reoli eu gyrfaoedd yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- Sylfaen (BS1 a BS2)
- Hyfforddeion Arbenigedd Craidd (CT1/CT2/ST1/ST2)
- Hyfforddeion Arbenigedd UWCH (ST3-ST8)
- Meddygon Teulu Dan Hyfforddiant

Mae nifer o hyfforddeion yn dod o hyd i atebion o'n ffynonellau lleol, yn ein gweithdai gyrfaoedd neu o ffeiriau gyrfaoedd. Gallwch anfon e-bost atom neu ein ffonio gydag ymholiad byr.

Weithiau mae cyfarfod manylach, diduedd â ni'n fwy priodol, yn arbennig yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Amheuan ynghylch y Rhaglen bresennol
- Amheuan ynghylch arbenigedd dewis
- Dim cynnig cadarn wedi rownd recriwtio
- Dim cynnydd gyrfaol ar eich llwybr presennol
- Newidiadau mewn amgylchiadau personol e.e. iechyd, teulu
- Ystyried ymddiswyddo
- Amheuan ynghylch dewis gyrfa

Trefnu cyfarfod â ni

Gallwch gysylltu â'r Tîm Gyrfaoedd unrhyw bryd yn ystod eich hyfforddiant yng Nghymru fel a ganlyn:

E-bost: pgmedicalcareers@cf.ac.uk

Ffôn: 029 20687485/029 20687568

Gwefan: <https://careers.walesdeanery.org/>

Os trefnwch gwrrd â ni, mae o fudd (er nad yn hanfodol) cwblhau ein ffurf gais cyn cyfarfod. Mae hyn i helpu'r Tîm Gyrfaoedd gynllunio at y cyfarfod. E-bostiwch y ffurflen i:

pgmedicalcareers@cardiff.ac.uk

Yna bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi ynghylch trefniadau'r cyfarfod. Gallwn hefyd drefnu cyfarfodydd dros y ffôn neu Skype.

Cyfarfodydd Canllaw

Mae cyfarfodydd Canllaw Gyrfaol fel arfer yn para awr ac maen nhw'n lle cyfrinachol i chi drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'ch cynllun gyrfaol a'ch bwriadau i Ymgynghorydd diduedd. Mae cyfarfodydd fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Disgwyliadau a chyfrinachedd
- Dysgu am eich gyrfa hyd yma
- Canolbwyntio ar fater(ion) presennol
- Ystyried opsiynau
- Cynllunio gweithredu

Cyn unrhyw drafodaeth, bydd yr Ymgynghorydd yn dweud wrthy'ch fod unrhyw beth sy'n cael ei drafod yn y cyfarfod yn gyfrinachol ac na chaiff unrhyw wybodaeth a drafodir ei datgelu dan unrhyw amgylchiadau i unrhyw adran arall o'r Ddeoniaeth heb i chi roi caniatâd.

Gallai fod adegau pan y gallai rhannu gwybodaeth â gwasanaethau cymorth eraill fod o fudd i chi, drwy sicrhau y cewch gymorth cydlynol. Hefyd, cytunir ar hyn â chi yn ystod y cyfarfod neu ar ei ôl.